



SQE2 cwestiwn enghreifftiol a thrafodaeth ar yr ateb

Tachwedd 2020

Bydd ymgeiswyr yn cyflawni 16 asesiad yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, bydd rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn a'r drafodaeth ar yr ateb yn enghraifft o asesiad drafftio cyfreithiol. Asesiad cyfrifiadurol yw hwn a bydd gan ymgeiswyr 45 munud i gwblhau'r dasg.

I gael rhagor o fanylion, gweler y Fanyleb Asesu ar gyfer SQE2.

Noder fod y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu darparu i roi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynrychioli'r holl ddeunydd a gynhwysir yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.

Cwestiwn a phapurau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr

E-bost at yr Ymgeisydd

Oddiwrth: Partner.
Dyddiad: 3 Rhagfyr 2020
Anfonwyd At: Ymgeisydd
Pwnc: Addison Builders Limited

Byddid yn cofio ein bod yn disgwyl am ymateb i'r Llythyr Cyn Hawlio a anfonwyd gennym at Maria ac Ian Humphries ar ran Addison Builders Limited. Mae'r cwpl wedi cyfarwyddo cyfreithwyr, Faulkners a Co. Rydym bellach wedi derbyn llythyr yn ymateb, yn gwadu bod unrhyw daliad pellach yn ddyledus i'n cleient ar y sail bod diffygion sylweddol yn y gwaith a wnaed gan Addison Builders Limited¹. Mae ein cleient yn gwadu'r honiad bod diffygion sylweddol.

Amgaeaf ddatganiad drafft cychwynnol gan John Evans, rheolwr gyfarwyddwr Addison Builders Limited a ddylai roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnat. Byddid yn sylwi bod paragraff 4 yn y datganiad drafft cychwynnol yn cyfeirio at gytundeb ysgrifenedig. Nid oes gennym gopi o hwn ar hyn o bryd ond mae John Evans wedi fy sicrhau y bydd yn ei ddanfôn i ni a bod ei delerau fel y nodir yn ei ddatganiad tyst felly dylet fwrw ymlaen ar y sail honno.

Fe'n cyfarwyddir i gychwyn achos. Rwyf yn bwriadu anfon y Ffurflen Hawlio i Ganolfan Hawliadau Ariannol y Llys Sirol [i'w cyhoeddi] gyda Manylion yr Hawliad ar 8 Rhagfyr 2020. **Drafftia Fanylion yr Hawliad gan ddefnyddio'r templed a ddarperir.** Mae ein system rheoli achosion wedi llenwi rhai meysydd yn barod.

Nid oes darpariaeth ar gyfer llog yn y cytundeb ysgrifenedig felly dylet gynnwys hawliad am log statudol yn unol ag adran 69 Deddf Llysoedd Sirol 1984 ar gyfradd o 8% y flwyddyn, a dyma'r ffigurau:

Mae 154 diwrnod tan 8 Rhagfyr, ar 8%, yn £5,265.26 gyda chyfradd ddyddiol o £34.19 y diwrnod **(nodyn i ymgeiswyr: dylech gymryd yn ganiataol bod y ffigurau hyn yn gywir).** Bydd John Evans yn llofnodi'r datganiad o wirionedd.

Diolch

Partner

Atodiadau:

Templed o Ddatganiad Tyst drafft

Manylion Hawliad John Evans

1 Nid yw'r llythyr ymateb wedi'i ddarparu i bwrpas yr asesiad hwn

Datganiad drafft gan John

Byddaf i, John Evans o 4, Dawlish Road, Llundain N3 4SS, yn dweud fel a ganlyn:

1. Fi yw rheolwr gyfarwyddwr Addison Builders Limited, cwmni yng Ngogledd Llundain. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn adeiladu ac adnewyddu cartrefi preswyl moethus. Sefydlais y cwmni yn 2017 gyda fy nau frawd ac mae'n fusnes teuluol sy'n cael ei redeg gan y teulu.
2. Ar 3 Medi 2019, cysylltodd Maria Humphries â mi. Roedd hi wedi cael fy enw gan gwsmer blaenorol. Roedd Maria a'i gŵr, Ian, wedi prynu eiddo a oedd angen tipyn o waith arno yng Ngogledd Llundain (6 Highbury Way, N7 5RD), a oedd â thir o'i gwmpas. Roedd y cwpl am drawsnewid hwn yn dŷ chwe ystafell wely moethus. Roeddent eisoes wedi cyflogi pensaer i wneud y cynlluniau ac wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu.
3. Ar 4 Medi 2019, cwrddais â Maria ac Ian yn yr adeilad i baratoi prisiad manwl o'r gwaith dan sylw. Roedd y gwaith yn helaeth gan fod angen gwneud llawer iawn o waith adnewyddu ar yr eiddo presennol ac roedd angen ei ymestyn yn eiddo chwe ystafell wely. Roeddwn wedi amcangyfrif bod cyfanswm cost y gwaith yn £220,000 a byddai'r gwaith yn cymryd tua naw mis.
4. Ar 6 Medi 2019, fe wnes i gwrdd â Maria ac Ian eto a rhoi ein contract gwasanaethau adeiladu safonol iddynt². Mae hwn yn egluro trefn y taliadau angenrheidiol ac yn rhoi manyleb fanwl o'r gwaith. Roedd Maria ac Ian yn hapus gyda'r contract ac fe'i llofnodwyd y diwrnod hwnnw. Cytunwyd y byddai'r gwaith yn dechrau ar 23 Medi 2019 ac y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 8 Gorffennaf 2020.
5. Dan delerau ein contract, cafodd y taliadau eu rhannu yn bedwar rhandaliad, yn unol â'r canlynol:
 - roedd angen 20% (£44,000) o'r gost o fewn saith diwrnod i ddyddiad y contract, erbyn 13 Medi 2019;
 - 25% (£55,000) o fewn tri mis i ddyddiad y contract, erbyn 6 Rhagfyr 2019
 - 25% (£55,000) o fewn chwe mis i ddyddiad y contract, erbyn 6 Mawrth 2020 a
 - 30% (£66,000) ar ôl cwblhau'r gwaith.
6. Eglurodd Maria wrthyf eu bod wrthi'n gwerthu eu fflat presennol yn Llundain, a fyddai'n ariannu'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y tŷ newydd, er y byddai'r taliad cychwynnol yn dod o'u cynilion. Fodd bynnag, fe'm sicrhaodd y byddai'r amserlen daliadau yn gweithio iddynt gan eu bod eisoes wedi dod o hyd i brynwr ar gyfer eu fflat ac y byddent yn cyfnewid contractau ymhen pythefnos.
7. Ar 13 Medi 2019, cefais y taliad cyntaf o £44,000 gan Maria ac Ian
8. Dechreuais weithio ar gartref Maria ac Ian ar 23 Medi 2019. Roedd y taliad nesaf i fod i gael ei wneud ar 6 Rhagfyr 2019. Fodd bynnag, ar 5 Rhagfyr 2019 mewn cyfarfod yn 6 Highbury Way, dywedodd Maria ac Ian wrthyf eu bod dal heb werthu eu fflat a wnaethant ofyn a fyddwn yn barod i aros cwpl o fisoedd arall am yr arian. Roeddwn i wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r cwpl erbyn hyn ac roeddwn i'n gallu gweld y cyfyng-gyngor anodd roedden nhw ynddo ac felly mi gytunais y gallent, heb gosb, dalu'r rhandaliad nesaf ar

² Nodyn i ymgeiswyr: bydd y contract hwn yn cael ei ddarparu

6 Chwefror 2020 pan fyddai eu heiddo, gobeithio, wedi ei werthu.

9. Ym mis Chwefror 2020, roedd Maria ac Ian dal heb werthu eu fflat gan fod eu darpar brynwyr newydd yn wynebu oedi yn y gadwyn eiddo. Fodd bynnag, roedd Maria wedi llwyddo i fenthylg arian gan ei rhieni ac roedd hi'n gallu cynnig £20,000 imi i gadw'r gwaith i fynd. Mewn cyfarfod gydag Ian a Maria yn 6 Highbury Way ar 6 Chwefror 2020, cytunais i dderbyn £20,000 ar y sail hon. Roedd Maria yn feichiog ers 4 mis ac roedd hi'n awyddus iawn i fod yn y cartref newydd erbyn geni'r babi. Talodd Maria y £20,000 i mi ar 6 Chwefror 2020, gan ddod â'r cyfanswm a dalwyd hyd hynny i £64,000.

10. Ym mis Mai, roedd y prosiect yn mynd rhagddo'n dda ac roeddwn yn disgwyl gorffen y gwaith ar 8 Gorffennaf 2020 fel y bwriadwyd. Roedd Maria ac Ian wedi cyfnewid contractau i werthu eu fflat ond roedd y dyddiad cwblhau wedi'i ohirio gan fod y prynwr dramor. I wneud pethau'n waeth, rhoddodd Maria enedigaeth i'r babi 3 mis yn gynnar a threuliodd hi ac Ian y rhan fwyaf o'u hamser yn yr ysbyty gyda'u babi newydd-anedig. Roeddwn i'n teimlo piti calon dros y cwpl ac felly fe wnes i gyfarfod â nhw yn 6 Highbury Way ar 19 Mai 2020 a chytuno, ar lafar, y bydden nhw'n gallu talu'r holl daliadau a oedd yn ddyledus i mi ar ôl cwblhau'r gwaith ar yr amod eu bod yn gwneud hynny ar y diwrnod y cwblheid y gwaith. Cytunais y byddai hyn yn disodli ein cytundeb gwreiddiol ynghylch y taliadau a drefnwyd.

11. Ar 8 Gorffennaf 2020, gorffennais y gwaith ar gartref newydd Maria ac Ian ac roedd yn ymddangos eu bod yn hapus ag ef, er ei fod yn gyfnod anodd iddynt gan nad oedd eu babi'n ddigon da i ddod adref o hyd. Rhoddais fil terfynol o £156,000 iddynt ar 8 Gorffennaf 2020.

12. Erbyn 12 Gorffennaf 2020 nid oeddwn wedi clywed dim gan y cwpl o hyd, ac fe wnes i eu ffonio i weld beth oedd yr oedi. Roeddwn ar ddeall fod eu fflat yn Llundain wedi gwerthu ac na ddylai fod rheswm pellach pam na allent wneud y taliad terfynol. Cefais sgwrs fer ar y ffôn gyda Maria ond torrodd hi ar fy nhraws yn gwt a dweud wrthyf y byddai'n cael Ian i fy ffonio.

13. Y diwrnod canlynol, roeddwn i dal heb glywed dim, felly fe anfonais e-bost brys yn atgoffa Ian bod angen iddynt setlo'r cyfrif ar unwaith. Ni wnaeth ymateb i'r e-bost hwnnw. Anfonais lythyr wedi'i eirio'n gryfach ar 15 Gorffennaf 2020 ond ni wnaethant ymateb i hwnnw chwaith. Clywais gan un o'm contractwyr fod Ian wedi awgrymu nad oedd y cwpl yn hapus gyda safon orffenedig y tŷ, er nad wyf yn deall hyn mewn gwirionedd gan nad oeddent wedi dweud dim byd o'r fath wrtho'i.

14. Ar 28 Gorffennaf 2020 sylweddolais nad oedd gen i ddewis ond cysylltu â chyfreithwyr ynglŷn â'r mater. Maen nhw wedi bod yn delio â hyn ers hynny.

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad tyst hwn yn wir. Rwy'n deall y gellir dwyn achos dirmyg llys erbyn unrhyw un a fydd yn gwneud datganiad anwir neu'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad o wirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

.....
John Evans

Dyddiad: [] Rhagfyr 2020

Templed

YN [rhowch enw'r llys]

Rhif yr Hawliad

RHWNG:

[rhowch enw]

Hawlydd

a

(1)[rhowch enw]

Diffynyddion

(2)[rhowch enw]

MANYLION YR HAWLIAD

NHJF Law LLP

Dyddiad:

DATGANIAD O WIRIONEDD

[Rwy'n credu] [Mae'r Hawlydd yn credu]³ bod y ffeithiau a nodir ym Manylion yr Hawliad yn wir. Rwy'n deall y gallir dwyn achos dirmyg llys erbyn unrhyw un a fydd yn gwneud datganiad anwir neu'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad o wirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

Cefais ganiatâd fel sy'n briodol gan yr Hawlydd i lofnodi'r Datganiad hwn

Llofnod:

Enw llawn:

Swydd neu Safle:

Dyddiad:

Cyfreithwyr yr Hawlydd yw NHJF Law LLP, 1 The Churchyard, Llundain, EC1 4PP, ac atynt hwy y dylid anfon dogfennau

³ Nodyn i ymgeiswyr: Dylech ddileu fel sy'n briodol

Trafodaeth ar yr ateb

Drafftio cyfreithiol: Pwyntiau

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer drafftio cyfreithiol fel a ganlyn:

Sgiliau

1. Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol.
2. Strwythuro'r ddogfen yn briodol ac yn rhesymegol.

Cymhwyso'r gyfraith

3. Drafftio dogfen sy'n gyfreithiol gywir.
4. Drafftio dogfen sy'n gynhwysfawr yn gyfreithiol, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol ac arfer barn i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Cyfreithwyr sydd wedi cael eu hyfforddi fel aseswyr fydd yn marcio ac y mae eu marcio wedi'i safoni. Mae'n seiliedig ar farn broffesiynol gyffredinol yn hytrach na thicio blychau neu wirio rhestr.

Y man cychwyn ar gyfer y penderfyniadau proffesiynol cyffredinol hyn yw safon cymhwysedd yr asesiad, sef safon y Cyfreithiwr Diwrnod Cyntaf cymwys ([y Safon Trothwy](#)). Mae marcwyr yn hyblyg o ran y dull a ddefnyddir gan yr ymgeisydd.

Mae marcio'n seiliedig ar berfformiad ar bob un o'r meini prawf asesu a fernir ar raddfa o A i F fel a ganlyn:

- A: Perfformiad eithriadol: llawer uwch na gofynion cymhwysedd yr asesiad
- B: Yn amlwg yn foddhaol: yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad yn glir
- C: Pasio o fymryn: at ei gilydd, yn cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad a dim mwy
- D: Methu o fymryn: at ei gilydd, methu o ychydig i gyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad
- E: Yn amlwg yn anfoddhaol: mae'n glir nad yw'n cyrraedd gofynion cymhwysedd yr asesiad
- F: Perfformiad gwael: llawer is na gofynion cymhwysedd yr asesiad

I gael rhagor o fanylion am y marcio, edrychwch ar y [Fanyleb Asesu](#) a'r Polisi Marcio a Chymedroli (i'w gyhoeddi). Mae'r Fanyleb Asesu yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol, a defnydd cywir a chynhwysfawr o'r gyfraith.

Pwyntiau cyfreithiol allweddol

- Rhoi datganiad cryno o'r ffeithiau y mae'r hawlydd yn dibynnu arnynt mewn ffordd resymegol dan aynnwys:
 - partïon y contract
 - natur a thelerau'r contract (gan atodi'r cytundeb ysgrifenedig)
 - amrywiadau llafar i'r contract gan roi manylion
 - perfformiad yr hawlydd (cwblhau'r gwaith)
 - taliad rhannol gan y diffynyddion
 - toriad o amodau gan y diffynyddion (methu talu)
 - y swm sy'n ddyledus
 - yr hawliad am log (yn unol â chyfarwyddiadau)
- Defnyddio cyfarwyddiadau i gwblhau'r pennawd a'r datganiad o wirionedd.

Nodyn ar atebion

Rhoddir dau ateb enghreifftiol (Enghraifft A ac Enghraifft B). Nid yw'r un ateb yn berffaith nac yn ateb delfrydol. Ni ddylech gymryd yn ganiataol bod popeth yn yr atebion enghreifftiol yn gywir. Mae A yn ateb cryfach na B ond mae'r ddau yn cyrraedd y Safon Trothwy o leiaf.

RHWNG:

ADDISON BUILDERS LIMITED

Hawlydd

a

(1) MRS MARIA HUMPHRIES

Diffynyddion

(2) MR IAN HUMPHRIES

MANYLION YR HAWLIAD

1. Mae'r Hawlydd, ac roedd ar bob adeg berthnasol, yn gwmni adeiladu sy'n darparu gwasanaethau adeiladu yng Ngogledd Llundain. Ar bob adeg berthnasol, gweithredodd yr Hawlydd drwy ei Reolwr Gyfarwyddwr, John Evans.
2. Drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng yr Hawlydd a'r Diffynyddion a wnaed ar 6 Medi 2019 ("y Cytundeb"), cytunodd yr Hawlydd i adnewyddu eiddo'r Diffynyddion yn 6 Highbury Way N7 5RD ("yr Eiddo") a chytunodd y Diffynyddion i dalu £220,000 am hynny. Mae'r Cytundeb ynghlwm wrth Fanylion yr Hawliad yn Atodlen 1.
3. Roedd y Cytundeb yn darparu y byddai gwaith ar yr Eiddo ("y Gwaith") yn dechrau ar 23 Medi 2019 ac y byddai'n cael ei gwblhau ar 8 Gorffennaf 2020. Cytunwyd hefyd y byddai'r pris o £220,000 yn cael ei dalu mewn pedwar rhandaliad ("Trefn y Taliadau") fel a ganlyn:
 - i) £44,000 erbyn 13 Medi 2019;
 - ii) £55,000 erbyn 6 Rhagfyr 2019;
 - iii) £55,000 erbyn 6 Mawrth 2020; a
 - iv) £66,000 ar ôl cwblhau'r gwaith.
4. Ar 13 Medi 2019 gwnaeth y Diffynyddion daliad i'r Hawlydd o £44,000 yn unol â Threfn y Taliadau.
5. Ar 23 Medi 2019, dechreuodd yr Hawlydd ar y Gwaith.
6. Yna, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng yr Hawlydd a'r Diffynyddion yn yr Eiddo pan gytunwyd ar lafar i newidiadau i Drefn y Taliadau fel a ganlyn:
 - i) ar 5 Rhagfyr 2019 cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion y byddai'r taliad o £55,000 a oedd yn ddyledus ar 6 Rhagfyr 2019 yn cael ei wneud ar 6 Chwefror 2020;
 - ii) ar 6 Chwefror 2020, cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion y byddai'r Hawlydd yn derbyn taliad o £20,000 gan y Diffynyddion er mwyn dal ati â'r Gwaith;

iii) ar 19 Mai 2020, cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion y byddai gweddiill pris y Gwaith (£156,000) yn cael ei dalu'n syth ar ôl cwblhau'r gwaith.

7. Cwblhawyd y Gwaith ar 8 Gorffennaf 2020 er boddhad ymddangosiadol y Diffynyddion a rhoddodd yr Hawlydd yr anfoneb derfynol i'r Diffynyddion am y £156,000 a oedd yn ddyledus.
8. Gwnaed ceisiadau pellach am daliadau ar 12, 13 a 15 Gorffennaf 2020, ond mae'r Diffynyddion wedi methu â thalu'r swm o £156,000 neu unrhyw ran ohono i'r Hawlydd.
9. Mae'r Hawlydd felly'n hawlio'r swm o £156,000 sy'n ddyledus gan y Diffynyddion i'r Hawlydd.
10. Yn ogystal, mae'r Hawlydd hefyd yn hawlio llog o dan adran 69 Deddf Llysoedd Sirol 1984 ar y swm o £156,000 ar gyfradd o 8% y flwyddyn rhwng 8 Gorffennaf 2020 a 8 Rhagfyr 2020 (154 diwrnod) sef £5,265.26 ac felly ymlaen ar gyfradd o £34.19 y diwrnod tan y dyfarniad neu daliad pa un bynnag bydd cynharach.

NHJF Law LLP

Dyddiad:

DATGANIAD O WIRIONEDD

Mae'r Hawlydd yn credu bod y ffeithiau a nodir ym Manylion yr Hawliad hwn yn wir. Rwy'n deall y gellir dwyn achos dirmyg llys erbyn unrhyw un a fydd yn gwneud datganiad anwir neu'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad o wirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

Cefais ganiatâd fel sy'n briodol gan yr Hawlydd i lofnodi'r datganiad hwn

Llofnod:

Enw llawn: John Evans

Swydd a Ddelir: Rheolwr Gyfarwyddwr [yr Hawlydd]

Addison Builders Ltd

Dyddiad:

Cyfreithwyr yr Hawlydd y dylid anfon dogfennau atynt yw: NHJF Law LLP, 1 The Churchyard, Llundain, EC1 4PP

ATODLEN 1

Y Cytundeb dyddiedig 6 Medi 2019 y cyfeirir ato ym mharagraff 2 Manylion yr Hawliad

ENGHRAIFFT B (gweler y

YNG NGHANOLFAN HAWLIADAU ARIANNOL Y LLYS SIROL

Rhif yr Hawliad

RHWNG:

ADDISON BUILDERS LTD

Hawlydd

a

(1) MARIA HUMPHRIES

Diffynyddion

(2) IAN HUMPHRIES

MANYLION YR HAWLIAD

1. Mae'r Hawlydd yn gwmni sy'n arbenigo mewn adeiladu ac adnewyddu cartrefi preswyl moethus.
2. Roedd yr Hawlydd a'r Diffynyddion wedi ymrwymo i gontract gwasanaethau adeiladu (y "Contract Gwreiddiol", gweler ynghlwm), a weithredwyd gan bob un o'r Diffynyddion a chan John Evans ar ran yr Hawlydd, ar sail ffurflen safonol yr hawlydd yn nodi'r telerau ar gyfer adnewyddu'r eiddo.
3. Roedd y Contract yn egluro'r telerau hanfodol: byddai'r gwaith yn dechrau ar 23 Medi 2019 ac y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 8 Gorffennaf 2020. Roedd y taliadau wedi'u rhannu, yn unol â'r canlynol:
 - roedd angen 20% (£44,000) o'r gost o fewn saith diwrnod i ddyddiad y contract, erbyn 13 Medi 2019;
 - 25% (£55,000) o fewn tri mis i ddyddiad y contract, erbyn 6 Rhagfyr 2019;
 - 25% (£55,000) o fewn chwe mis i ddyddiad y contract, erbyn 6 Mawrth 2020;
 - a 30% (£66,000) ar ôl cwblhau'r gwaith.
4. Ar 13 Medi 2019, cafodd yr Hawlydd y taliad cyntaf o £44,000 gan Maria ac Ian. Gan fod y Diffynyddion wedi methu â thalu'r rhandaliad ar 6 Rhagfyr 2019,
5. cytunodd yr Hawlydd a'r Diffynyddion ar lafar i ddiwygio'r Contract Gwreiddiol ac ymestyn dyddiad talu'r ail randaliad i 6 Chwefror 2020.

Yn hytrach na gwneud y taliad llawn o £55,000 ar 6 Chwefror 2020, ac yn groes i
6. delerau diwygiedig y Contract Gwreiddiol, gwnaeth y Diffynyddion daliad o £20,000 a'r cyfanswm a dalwyd hyd at y dyddiad hwnnw felly oedd £64,000.

Ar 19 Mai 2020, cytunodd y partion ar lafar i ddiwygio cyfnod y Contract
7. Gwreiddiol ar yr amod bod yr holl daliad a oedd yn ddyledus, sef £156,000 (y "Swm i'w Dalu") yn cael ei dalu'n llawn gan y Diffynyddion ar ôl cwblhau'r gwaith.

8. Cwblhaodd yr Hawlydd y gwaith yn unol â thelerau'r Contract ar 8 Gorffennaf 2020.
9. Cyflwynodd yr Hawlydd fil terfynol am £156,000 ar 8 Gorffennaf 2020 yn unol â'r Contract diwygiedig.
10. Yn groes i delerau datganedig y Contract diwygiedig, nid yw'r Diffynyddion wedi talu unrhyw ran o'r bil terfynol i'r Hawlydd.
11. O ganlyniad, dioddefodd yr Hawlydd golled a difrod.

Manylion y golled a'r difrod

- a. Swm sy'n Ddyledus o £156,000
- b. Llog

Manylion y Llog

O dan adran 69 Deddf Llysoedd Sirol 1984 ar y swm dyledus o £156,000 ar gyfradd o 8% y flwyddyn rhwng 8 Gorffennaf 2020 a 8 Rhagfyr 2020 sef £5,265.26 ac felly ymlaen ar gyfradd o £34.19 y diwrnod tan y dyfarniad neu daliad pa un bynnag bydd cynharach.

AC MAE'R HAWLYDD YN HAWLIO:

- (1) Y swm o £156,000
- (2) Y llog a nodir ym mharagraff 11b uchod

NHJF Law LLP

Dyddiad:

DATGANIAD O WIRIONEDD

[Rwy'n credu][Mae'r Hawlydd yn credu] bod y ffeithiau a nodir ym Manylion yr Hawliad hwn yn wir. Rwy'n deall y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un a fydd yn gwneud datganiad anwir neu'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad o wirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

Cefais ganiatâd fel sy'n briodol gan yr Hawlydd i lofnodi'r datganiad hwn

Llofnod.....

Enw llawn:

Swydd a Ddelir:

Dyddiad:

Cyfreithwyr yr Hawlydd y dylid anfon dogfennau atynt yw: NHJF Law LLP, 1 The Churchyard, Llundain, EC1 4PP